Atalnodi

**00:00** Helo a chroeso i'r recordiad, heddiw bydden ni'n canolbwyntio ar Gyfathrebu.

**00:11** Pwnc penodol y recordiad hwn bydd Atalnodi ble bydden ni'n sicrhau ein bod yn deall sut mae atalnodi yn effeithio brawddegau a gwirio eu bod yn gwneud synnwyr.

**00:27** Erbyn diwedd y sesiwn byddwch yn: Adnabod pob llythyren o'r wyddor Gymraeg ac yn adnabod eu synau, Deall pryd mae angen defnyddio priflythyren, Gwybod sut i ddefnyddio atalnodi yn effeithlon.

**00:44** Mae 29 llythyren yn yr wyddor Gymraeg ac mae eu synau fel arfer yn wahanol i'r Saesneg. Os nad ydych yn sicr o'r synau, ymchwiliwch ar-lein am enghreifftiau o seiniau ac ynganiad llythrennau'r wyddor. Mae'n hollbwysig ein bod yn adnabod pob un o'r llythrennau hyn ac yn gwybod pryd i'w defnyddio.

Sylwch bod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'ph', 'rh' a 'th' yn lythrennau annibynnol a bod rhai ond yn ymddangos wrth dreiglo. Sylwch hefyd bod 'ff' (sef dau 'f') yn rhoi sŵn tebyg iawn i 'f' (yn Saesneg) ond bod un 'f' Cymraeg yn gwneud y sŵn 'f' – clywch y gwahaniaeth ar gyfer y Gymraeg 'ff' 'f'.

**01:41** Mae atalnod llawn yn cael ei ddefnyddio i orffen brawddegau. Os nad oes atalnod llawn yn eich gwaith mae'n awgrymu nad ydych chi wedi ei orffen.

**01:57** Mae'n bwysig bod coma yn cael ei osod yn y lle cywir fel nad ydy'n effeithio ar lif y frawddeg. Mae'n cael ei osod pan rydych yn rhestru pethau, pan rydych yn pwysleisio pwynt neu pan rydych angen anadlu yn y frawddeg!

**02:17** Mae colon yn cael ei ddefnyddio pan rydych yn cyhoeddi neu'n cyfeirio at restr.

Defnyddiwyd hanner colon i gysylltu dau ddatganiad annibynnol/syniadau mewn un brawddeg. Os yw'r rhan cyntaf o'r frawddeg yn syniad byddai'r ail ran o'r frawddeg (heibio'r hanner colon) yn esbonio'r syniad. e.e. Mae gen i brawf wythnos nesaf; rydw i angen adolygu.

**02:49** Mae marc cwestiwn neu gofynnod yn ymddangos ar ddiwedd brawddeg sy'n gofyn cwestiwn. Mae'r gair ar ddechrau'r frawddeg yn awgrymu os ydy'n cwestiwn neu beidio, ac mae ond yn gwneud synnwyr pan mae marc cwestiwn ar y diwedd.

Pa eiriau sy'n awgrymu ei fod yn gwestiwn? Cliciwch ar saib i rewi'r fideo i feddwl ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Pryd wyt ti eisiau mynd i'r sinema? Pam wyt ti eisiau benthyg fy ffôn? Beth ddwedaist di? Wyt ti eisiau paned? Faint o'r gloch ydy hi?

**03:50** Pwrpas collnod. Mae collnod yn cael ei ddefnyddio pan rydym yn colli llythrennau. Gallwn gwtogi brawddegau wrth fewnosod collnod fel hyn: Rydw i yn → Rydw i'n / 'Dw i'n

**04:39** Sut gallwn ni gwtogi'r brawddegau hyn? Cliciwch ar saib i rewi'r fideo i gwblhau'r dasg ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

Dyma yr amserlen → Dyma'r amserlen.
Mae yr erthygl yma yn ddiddorol → Mae'r erthygl yma'n ddiddorol.
Mi faswn i yn mynd i redeg ond mae hi yn bwrw glaw → Baswn i'n mynd i redeg ond mae hi'n bwrw glaw.
Ble wyt ti yn byw? → Ble wyt ti'n byw?
Aeth Sion â ei gi am dro. → Aeth Sion â'i gi am dro.

**05:30** Tasg trefnu. Cysylltwch y marc atalnod gyda'i bwrpas a nodwch enghraifft o'i ddefnydd. Cewch edrych ar y we os ydych am fwy o gymorth.

**05:44** Cliciwch ar saib i rewi'r fideo i gwblhau'r dasg ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

**07:09** Mae diffyg atalnodi yn effeithio ystyr brawddegau. Gosodwch atalnodi yn y darn yma, cliciwch ar saib i rewi'r fideo ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

Mae'r frawddeg yn dechrau gydag 'A wnes di' – mae hwn yn gwestiwn felly mae angen marc cwestiwn yn y man priodol. A wnes di weld y tân gwyllt neithiwr? Mae marc cwestiwn yn gorffen y cwestiwn cyntaf sy'n effeithio dechrau'r frawddeg nesaf ble mae angen priflythyren. Ar ddiwedd y darn wedyn mae angen ychwanegu unai atalnod llawn i orffen y frawddeg neu gallwn ni roi ebychnod i ddangos pa mor brydferth oedd yr awyr.

**08:06** Mae angen dilyn y rheolau canlynol i ddefnyddio priflythrennau: Mae eu hangen nhw ar ddechrau pob brawddeg, enwau pobl /cwmni /lleoliad, dyddiau e.e. dydd Llun (ddim ar y gair 'dydd' ond ar y diwrnod ei hun)/ misoedd e.e. mis Ebrill (nid ar y gair 'mis' ond ar enw'r mis) a thymhorau'r flwyddyn, ieithoedd, teitlau pobl (fel Miss/Mrs/Mr) / teitlau llyfrau/ ffilmiau/ rhaglenni.

**08:47** Ble mae angen prif lythrennau yn y darn hwn?

Cliciwch ar saib i rewi'r fideo wrth i chi wneud hyn ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

Mae angen prif lythyren: ar ddechrau'r frawddeg (Roedd), ar y mis (Hydref), ar yr enw (Betsan), ar y lleoliad (Caerdydd) ac ar deitl y ffilm (Y Tŷ Arswyd)

**09:40** Tasg Atalnodi. Mae rhai wedi cael eu llenwi yn barod i chi fel esiamplau. Cliciwch ar saib i rewi'r fideo i gwblhau'r dasg ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

'Arhosodd y bws nes bod pawb wedi dychwelyd' – gallwn ni weld nad oes unrhyw atalnodi ar ddiwedd y frawddeg felly bydd angen ychwanegu yn fanno, dydy'r

frawddeg ddim yn dechrau gyda chwestiwn nac yn dweud unrhyw beth cyffrous neu'n cyfleu emosiwn felly atalnod llawn sydd ei angen yma. Mae angen gorffen y frawddeg.

'Roedd Jac yn dal i chwarae FIFA nes 1 y bore' – eto, does dim atalnodi ar ddiwedd y frawddeg. Dydy'r frawddeg ddim yn dechrau gyda chwestiwn ond mae'n bosib ei fod yn cyfleu emosiwn, gall fod yn dangos syndod bod Jac yn dal i chwarae FIFA nes 1 y bore felly gallwn ni osod ebychnod yma.

'Gwelais fy ewythr fy modryb fy chwaer.' – mae atalnod llawn ar ddiwedd y frawddeg felly mae angen gosod atalnodi yng nghanol y frawddeg iddo wneud synnwyr. Mae'r person yma wedi gweld mwy nag un person felly mae'n rhestru

'Roedd Adele yn wych yn y gyngerdd nos Sadwrn' – does dim atalnodi ar y diwedd ac mae'r frawddeg yn dangos emosiwn o gyffro yr ysgrifenydd ar ôl gweld cyngerdd Adele felly mae angen ebychnod yma i ddangos hyn.

'Erbyn pryd wyt ti eisiau i mi ddod draw' – does dim atalnodi ar ddiwedd y frawddeg ac mae'r gair 'pryd' yn golygu ei fod yn gwestiwn. Mae angen marc cwestiwn ar y diwedd i gynrychioli'r cwestiwn.

**11:40** Ar y sleid nesaf mae dyfyniad am ail chwedl Pedair Cainc y Mabinogi, sef 'Branwen ferch Llŷr' gyda'r atalnodi wedi'i dynnu allan. Ceisiwch roi'r atalnodi a'r priflythrennau yn ôl fel ei fod yn gwneud synnwyr.

**12:00** Ychwanegwch atalnodi i'r ddyfyniad hon. Cliciwch ar saib i rewi'r fideo i gwblhau'r dasg ac ail-ddechreuwch pan rydych yn barod i barhau.

**12:21** Dyma'r dyfyniad gwreiddiol. Pa mor agos oeddech chi? Gwiriwch eich gwaith a sylwch bod mwy nag un ffordd o ychwanegu atalnodi i'r brawddegau lifo ac iddo wneud synnwyr.

**12:44** Diolch yn fawr iawn i chi am ymuno a chwblhau'r gwaith gyda ni. Am ragor o wybodaeth a thasgau ar y pwnc 'Atalnodi' ewch i'n gwefan a defnyddio'r adnodd ar y pwnc penodol neu'r pecyn Cyfathrebu cyflawn.

Defnyddiwch y cod QR isod i fynd yn syth ato. [Dyma ddolen at yr adnodd.] Cofiwch wylio y recordiadau eraill sy'n cyd-fynd gyda phynciau'r adnodd.